YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 2.] CHWEFROR, 1923. [PRIS 3c

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.
Y FFYDD UNDODAIDD, &c.
ODDIAR Y TWR.
TADOLDEB DUW.
Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 4s. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

CHANNING HOUSE SCHOOL.

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Boarding and Day School for Girls.

Healthy situation at the top of Highgate Hill. Large Grounds. Work on Modern Public School Lines. Preparation for London University Matriculation.

Apply for Boarding or Day Prospectus to—
Miss ALICE HAIGH, M.A., Head Mistress.

AUTUMN TERM begins SEPT. 19th.

THE STAFF.

Head Mistress—

Miss ALICE HAIGH, M.A. (Manchester).

Resident Mistresses—

Miss A. M. DANIEL, B.A. (Lond.), Honours in History; Teachers' Diploma.
Miss H. K. FRY, B.A. (Lond.), Honours in French.
Miss G. HARKER (Girton), Natural Science Tripos.
Miss M. JAMES, Higher Froebel Certificate.
Miss C. JEPSON, L.R.A.M., A.R.C.M. Miss F. JONES, B.Sc. (Lond.).
Miss D. H. LETTS (Cantab), M.A. (T.C.D.) *(Non-Resident)*.
Miss B. MACLAREN, B.A. (Lond.), Honours in Classics.
Miss A. SUTHERLAND, B.A. (University of Wales), Honours in English.
Miss M. TENCH, Bedford Physical Training College.
Miss E. L. WILLIAMS, B.A. (Manchester), Honours in History, Certificate of Social Science, London School of Economics.

Visiting Mistresses—

Miss ADAMSON (Elocution). Miss A. F. BRETTELL (Elocution).
Miss W. GOODING, L.R.A.M. Miss A. GOODWIN, Member of the R.D.S.
Miss HARE (Dancing). Miss M. HOPE, L.R.A.M., A.G.S.M.
Miss I. THOMPSON, L.R.A.M., A.R.A.M. (Singing).

Matron—Miss MAUD MORSON. *Under Matron*—Miss E. JACKSON.

Number of pupils, about 140.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1923. [CYF. XXIII. RHIF 2.

AR ADEN FFYDD.

ARTHUR GYDA NI.

MAE Arthur Fawr yn cysgu,
A'i ddewrion sydd o'i ddeutu,
A'u gafael ar y cledd;
Pan ddaw yn ddydd yng Nghymru,
Daw Arthur Fawr i fyny
Yn fyw—yn fyw o'i fedd!

Pan ddeffry gwlad o ddynion
I frwydro'n gywir-galon
O blaid y nef a dyn,
Daw anfarwolion oesau
I sefyll wrth ei hochrau—
I sefyll yn ddi-gryn.

Pan fydd y wlad yn barod,
A glendid mwy yn ddefod,
Bydd Arthur gyda ni;
Lle ceir y galon lathraidd,
Fe geir y Greal Santaidd,
Ac fe geir dyn mewn bri. ELFED.

Y CYMRY YN GENEDL.

COFIWCH eich bod yn genedl, trwy ordeiniad Duw; am hynny, gwnewch yr hyn a alloch i gadw'r genedl yn genedl, trwy gadw'i hiaith, a phob peth arall a berthyno iddi. Os byddwch anffyddlon i'ch gwlad a'ch iaith a'ch cenedl, pa fodd y gellir disgwyl i chwi fod yn ffyddlon i Dduw ac i'r ddynoliaeth? Na fydded arnoch gywilydd o'r pethau hynny y sy'n eich neilltuo oddiwrth genhedloedd eraill; ac os mynnwch ddynwared y genedl nesaf atoch, dynwaredwch hi yn y pethau y mae hi yn rhagori arnoch.—EMRYS AP IWAN.

Y FFYDD UNDODAIDD GYDA GOLWG AR DDUW.

I'R sawl sy'n gwylio rhediad barn ac opiniwn y mae'n amlwg iawn fod pobl yn gwahaniaethu gyda golwg ar yr hyn olygant wrth ddefnyddio'r gair "Duw?" Dywedodd John Wesley wrth rywun neu rywrai, "Eich Duw chwi yw fy niafol i." Y mae'r sylw yn awgrymiadol. Y mae'n bosibl i'r *duwiau* fod yn gythreuliaid, a'u haddolwyr yn ddiafol-addolwyr. Cofus gennyf ddysgu emyn Cymreig agorai fel a ganlyn, "Pa Dduw ymhlith y duwiau sy'n debig i'n Duw ni?" Yr oeddwn yn meddwl y pryd hwnnw fod gan gapel neilltuol dduw oedd yn *private property* yr aelodau addolent ynddo o Sul i Sul, ac ei fod rywsut yn dduw ragorai ar dduw pob capel arall yn y cymydogaethau.

Dyna fel y bu hi am gyfnod hir ym mharthau gwledig Cymru, ond erbyn heddyw y mae gwawr newydd wedi torri drostynt, a diflannodd y duwiau bychain hyn bron i gyd i'r cysgodion. Cul a chreulon oedd y mwyafrif ohonynt, a'u hallorau yn ddi-groesaw i gariad, trugaredd, a goleuni. Ond "trwy weddi ac ympryd," ac ymdrech aml i ddiwygiwr dewr a phroffwyd di-ofn fe'i bwriwyd hwy allan o'r tir, a chymerwyd eu lle gan *rywbeth gwell.*

Y ffaith yw fod syniadau pobl am Dduw yn gwella fel y mae gwybodaeth a diwylliant yn myned rhagddynt, a'u gweledigaethau ohono yn dyfod yn gliriach, a'u profiadau ohono yn ddyfnach. Erys Duw ynddo'i hun yr un o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, "heb gyfnewidiad na chysgod troedigaeth." Nid yw Efe yn fwy nac yn llai heddyw nag yr oedd yn y dechreuad. Drychfeddyliau dyn am dano sy'n cyfnewid, ac yn cyfnewid er gwell, mi gredaf. Mae'r Ffydd Undodaidd yn rhydd ac yn agored i gredu ac i fabwysiadu meddyliau goreu ac uwchaf yr ugeinfed ganrif am Dduw. Ei hyder yw y bydd i'r ddynoliaeth yn y dyfodol berffeithio ei gallu meddyliol a'i gweledigaeth ysprydol, a christioneiddio ei chalon a'i hyspryd, ac fel canlyniad y bydd i Arglwydd nef a llawr roddi iddi ddatguddiad llawnach ohono'i hun.

Er mwyn gwneud fy meddwl yn fwy eglur goddefwch i mi roddi o'ch blaen dudalen neu ddwy o hanes Crefydd. Cafodd pobl Judah gynt eu hunain yn gaethion ym Mabilon fawr. Yr oedd eu proffwyd gyda hwy. Yn ei ofid dechreuodd feddwl beth allai fod yr Amcan Dwyfol yn dwyn y trybini hwnnw ar ei genedl. Yr oedd wedi arfer credu fod Jehovah uwchlaw duwiau'r cenhedloedd oll; ond wele Dduw cryf a chyfiawn Israel yn goddef i'r ffyddloniaid i gael eu caethiwo gan eu gelynion. Wedi troi a throsi'r broblem yn ei feddwl daeth i'r casgliad fod y ffyddloniaid yn dioddef oherwydd y pechaduriaid ac er mwyn adferyd y di-ffydd yn eu mysg, ac yn fwy na hynny eu bod yn dioddef er mwyn y genedl oedd yn eu dal mewn caethiwed, er mwyn y Babiloniaid. Yr oedd Jehovah yn awyddus i daflu aden ei ofal trostynt hwy hefyd. Gwell oedd ganddo goleddu'r

syniad eangach hwn am Dduw Israel na chredu ei fod yn dduw gorchfygedig. Yn hytrach na'i golli yn gyfangwbl, gwell oedd ganddo gredu ei fod yn Dduw o bwrpasau llydanach nag yr oedd wedi arfer meddwl; ac o'i gyfyngder ysprydol fe gyhoeddodd y proffwyd fod rhagluniaeth Jehovah yn ymestyn dros Fabilon hefyd—dros elynion Israel hyd yn oed. Y canlyniad oedd i'r genedl gael syniad newydd a syniad godidocach am Dduw. Y mae rhywbeth tebig i hyn wedi ac yn cymeryd lle yn hanes crefydd ymhob oes a gwlad.

Cyn yr unfed ganrif ar bymtheg credai y dysgedig a'r annysgedig mai ein daear ni oedd canolbwynt y bydysawd, fod yr haul a'r planedau a'r ser oll yn troi oddiamgylch iddi. Dan ddylanwad y syniad yna nid oes eisiau dweyd fod ein pelen fach ni yn cael ei hystyried gan ei thrigiannwyr yn un tra phwysig. Nid oedd yr holl Lu Nefol, miliynau ser y "Llwybr Llaethog," ond petheuach i foesgrymu i urddas y ddaear hon. Tua'r pwynt hwn yn yr eangder maith yr ymweithiai holl bwerau Duw a'r Nefoedd, ac mewn congl bellenig ohoni y chwareuwyd drama fawr cwymp ac achubiaeth dyn. Daear dwt a chysurus iawn oedd ein daear ni cyn yr unfed ganrif ar bymtheg. Hi oedd yr *autocrat* ymhlith y planedau. Ond tua Phwyl fe anwyd rhyw grwtyn o'r enw Copernicus; ac wedi iddo ddyfod yn ddigon hen i osod ei *thinking cap* ar ei ben, nid hir y bu cyn dangos nad oedd ein daear ni ond megis pledren gyffredin mewn maint o'i chymharu a rhai o'r ser a'r heuliau. Profodd nad oedd ond planed "fechan fach" yn troi oddiamgylch yr haul. Tynodd y ddysgeidiaeth newydd ymaith yn ddi-seremoni y pileri ar ba rai y credid fod Duw wedi sicrhau y ddaear mewn wythnos o amser, chwe' mil o flynyddoedd yn ol, mwy neu lai. Taflodd yr oll fel tegan plentyn i'r gwagle maith, a chydag ef y rhan fwyaf o freuddwydion a dychmygion yr oesau blaenorol. Gwelodd pobl nad oedd y ddaear ond megis tywodyn ar draeth ymhlith y "bydoedd annifeiriol sydd yn serenu'r nen." Y canlyniad oedd i Dduw fynd yn *rhy fach*. Rhaid oedd cael un mwy na Duw planed i fod yn gyfrifol am y bydysawd ddygodd athrylith Copernicus i sylw dynion. Nid yw yn syndod i'r Pab Paul y pedwerydd gondemnio gwaith Copernicus. Nis gallai y duw Rhufeinig a'r duw ddatguddiodd wyddoniaeth y Pwyliad gyd-fyw ym meddyliau pobl.

Yn y *crisis* hwnnw ym myd crefydd, pan oedd Duw wedi diflannu megis, gan adael gwacter yn y galon ddynol—nid oedd ond un peth fedrai achub Ewrob—syniad newydd o Dduw. Rhaid oedd rhoi i fyny y gred yn ei fodolaeth neu goleddu syniadau eangach am dano. Rhaid oedd meddwl am dano fel Presenoldeb yn llenwi ac yn bywiocau, nid un blaned yn unig, ond bydoedd di-rif. Rhaid oedd ei wneud yn ddigon mawr i gynnwys bydysawd di-derfyn y seryddwr neu ei ollwng i fynd fel breuddwyd brau o'r gorffenol; ac ar ol petruso a chondemnio am dymor derbyniodd y byd a'r eglwys y syniad newydd o Dduw. Y mae Undodiaeth yn amcanu at gyfaddasu pobl i dderbyn datguddiadau cynyddol gwyddoniaeth, a'u gwneud *at home* yn y cread mwy a chyda'r Duw mwy. Ceisia gyffroi yn y

meddwl sydd wedi gorfod troi o'r neilltu y *duw llai* ddyhead newydd tuag at y Cariad a'r Perffeithrwydd anfeidrol sydd yn cael ei ddatguddio fwy-fwy fel y sylweddola dyn ei ddelfrydau o ddaioni a gwirionedd.

Fe welir felly ein bod yn golygu wrth Dduw, yr hyn Sydd—yr oll o'r Cread fedrwn amgyffred, a mwy, oblegid tuhwnt i'r gallu a'r cariad a welwn ac a garwn yn natur ac yn mywyd dynoliaeth, tuhwnt i'r hyn sydd wedi ei ddatguddio eisoes y mae adnoddau "ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn erioed" eu rhagoroldeb. Yn yr ystyr hyn y mae pob dyn yn rhwym o gredu yn y Bod o Dduw. Yr unig ddadl fedrir godi ym mherthynas i'r cwestiwn yw y math o Dduw y cred ynddo. Y mae credu mewn trefn yn y bydysawd gweledig yn gredu yn Nuw. Y mae credu mewn rheswm a chydwybod yn gredu yn Nuw. Y mae credu yng ngwerth daioni, purdeb, a gwirionedd yn gredu yn Nuw. Soniai'r hen ddiwynyddion lawer am y pechod o anghrediniaeth, ond y mae yn amhosibl i undyn fod yn llwyr anghrediniol. Y mae'r ffaith ein bod yn bodoli ar unwaith yn cau allan anghrediniaeth yng ngwir ystyr y gair, ac nid yn yr ystyr gul athrawiaethol ohono. Y mae'r sawl sydd yn plannu hedyn ym mhridd y ddaear ac yn disgwyl dyfodiad y Gwanwyn i'w adgyfodi yn gobeithio yn Nuw.

Y mae'r sawl fedr ddweyd wrtho'i hun pan fo'r wybren yn llawn cymylau, "Bydd amyneddgar, galon fâd, fe ddaw'r goleuni trwyddynt yn y man," y mae'r sawl fedr ddweyd hyna yn credu yn Nuw.

Yn ddiweddaf, cred Undodiaeth fod yr Yni Tragwyddol sydd yn ysgogi'r bydysawd yn Allu lywodraethir gan Ddoethineb Perffaith, Daioni Perffaith, Cyfiawnder Perffaith a Chariad Perffaith.

"Aneddwr Tragwyddoldeb," meddai'r hen Iolo gynt, "er hynny'n hawdd dy ganfod, wyt fyth yn agos iawn." Duw "a'i fawredd yn ymdemlu drwy'r holl eangder maith," ond eto yn agos iawn at bob un o honom, a'i ofal trosom yn fwy na gofal tad tros ei anwyl blant, ie, yn fwy na gofal mam. "Ein Tad," meddai Iesu Grist, Y mae'r enw newydd—Tad—roddodd efe i greawdwr nef a daear – yn sefyll dros yr oll ystyrir wrth grefydd, dros yr oll y mae'r hil o'r dechreuad wedi ymbalfalu am dano. Y mae yn esbonio bywyd ac hanes, ac yn arwyddo dysgyblaeth a goleuni, heddwch a blaenfynediad, gobaith a chariad, ffydd ac ysprydoliaeth. Ar y graig hon y mae'r Ffydd Undodaidd yn adeiladu ei heglwys, a chredaf nad oes storm na thymhestl yn y bydysawd, nad oes chwyldroad nac Armagedon ar y ddaear fedr ei hyrddio oddiar ei sylfeini. Yng ngeiriau Whittier—

> "I know not where God's islands' lift
> Their fronded palms in air,
> I only know I cannot drift
> Beyond His Love and Care."

D. Cellan Evans,

Northampton.

ODDIAR Y TWR.

Yr wyf yn ddarllenwr cyson o'r Beibl, Mr. Gol. Ni ddwedaf hyn er ennill imi fy hun y clod o feddu un math ar seintyddiaeth eithriadol, ond fel man cychwyn i'r hyn fwriadaf ddweyd cyn sychu fy ysgrifbin. Fe ddarllenaf yr oll o'i gynnwys—y drwg a'r da, yr echryslawn a'r dymunol, llyfr y Pregethwr a llyfr Esaia, y Salm felltithiol a phennod Paul ar gariad, y Deg Gorchymyn a'r Bregeth ar y Mynydd, ei farddoniaeth a'i ryddiaeth, ie, a'r Datguddiad—er na fedraf ddeall fawr o gynnwys yr olaf.

***

Fe ga'm darlleniad o'r Beibl, fel y mae'n naturiol disgwyl, effeithiau tra amrywiol eu natur arnaf, yn ol natur y darn neu'r llyfr ddarllenaf. O ddarllen y da a'r dymunol, llyfr Esaia a phennod Paul ar gariad, y Deg Gorchymyn a'r Bregeth ar y Mynydd, ei farddoniaeth a'i freuddwydion, fe gynhyrchir siriol deb yn fy nghalon, ffydd gadarnach a dyfnach mewn Duw a dyn, gobaith disgleiriach parthed y dyfodol, a syniad mwy clir am amcan y cwbl—yn enwedig am amcan bywyd dyn. Y mae, fodd bynnag, un eithriad—Llyfr y Pregethwr. Tuedd y darlleniad o hwn yw diffodd pob siriol deb, enhuddo (os nad difodi) am ennyd pob ffydd a gobaith, cysgodi'r cyfan gan "gymylau a thywyllwch"; ac fe'm tueddir i ddweyd, gyda'r awdur, "gwagedd yw'r cwbl."

***

Llyfr y gwaethafwr *(pessimist)* yw Llyfr y Pregethwr—yr unig un o lyfrau'r Beibl y gellir ei ddesgrifio fel hyn. Wn i ddim ai gwaethafwr yw'r gair Cymraeg gore i gyfieithu'r gair Saesneg *pessimist*. Efallai mai gwell fyddai imi ddefnyddio'r gair Saesneg. O ddiffyg gair gwell, fodd bynnag, rhaid i'r gair gwaethafwr wneud y tro yn awr; oblegid y mae ynof ryw gymaint (yn wir, cryn lawer) o ragfarn yn erbyn defnyddio geiriau Saesneg mewn llith (neu hyd yn oed mewn pregeth) Gymraeg. Os Saesneg, Saesneg; os Cymraeg, Cymraeg. Ystyr y gair gwaethafwr yw—un a gred fod y byd dynol yn grynswth â'i ogwydd oriwaered, tuag at y drwg, nad oes ond ychydig (os dim) daioni yn unman, fod y drwg yn meddu'r afael drechaf, na welir ond arwyddion o ddirywiad ymhob cyfeiriad, fod sefydliadau crefyddol (yn Eglwysi a phopeth arall) yn cyflym golli eu dylanwad—yn wir, wedi ei golli'n llwyr—ac nad ydynt bellach ond math ar lanastr, da i ddim, a theilwng i gael eu troi ar y neilltu.

***

Ni fu un oes, yn debygol, na cheid pobl o'r fath hyn. Ac y mae llawer ohonynt wedi esgyn yn uchel hyd risiau clod fel athronwyr, haneswyr, beirdd, diwinyddion, ac yn y blaen. Dyna Schopenhauer, yr athronydd Germanaidd enwog—"tywysog eu llu hwynt"; Gibbon, yr hanesydd adnabyddus; Deon Inge, o Sant Paul, Llundain, yn ein dyddiau ni—y "Deon prudd-olwg," fel y'i gelwir; er y llunierir ei waethafiaeth ef gan ffydd gref yn naioni hanfodol pethau; a saif y Deon Inge, felly, ar gyfrif y ffaith hon, ymron ar ei ben ei hun. Ymddengys i mi fel pe fod tòn o'r ysbryd gwaethafol wedi ymdaenu dros y byd dynol yn ystod y blynyddoedd diweddaf, a fod lluaws anarferol o luosog wedi syrthio'n ebyrth i'w chynddaredd.

***

Nid daionus ydyw effeithiau ysbryd o'r natur hyn. A dyngarwr o'r radd flaenaf fyddai'r hwn fedrai roi inni gyfarwyddyd i weled pethau yn eu goleu iawn. Nid ymhonnaf feddu un cymhwyster i wneud gwrhydri o'r fath hyn. Eto fe hoffem wneud ychydig i yrru o fodolaeth y waethafiaeth eithafol, afiach a dinystriol ei dylanwad, sydd wedi darostwng cynnifer yn gaeth iddi.

***

Beth, ynte, yn y lle cyntaf, am danom ni fel Eglwysi Undodaidd yng Ngheredigion? A ydynt yn y cyflwr anobeithiol o isel y mŷn rhai inni gredu eu bod? Oblegid y mae gwehelyth y gwaethafwr yn y rhengoedd Undodaidd fel ymhobman. Y mae dau fath ar eithafedd—eithafedd y gwaethafwr di-reswm, ac eithafedd y gorafwr di-reswm. Rhwng y ddau eithafedd hyn y mae lle i lu mawr iawn o lwybrau canol. Fe all un o'r llwybrau canol hyn oleddu'n gryf yng nghyfeiriad y waethafiaeth dduaf; arall yng nghyfeiriad yr orafiaeth ddisgleiriaf; tra y gall eraill fod yn rhywle yn agos i'r canol, heb oleddu i un eithafedd yn fwy nag i'r llall. Ni pherthyn imi yn y llith hon i benderfynu safle ein Heglwysi yng Ngheredigion o ran pellter oddiwrth y ddau eithafedd hyn; eithr ymfoddlonaf ar wneud yr honiad a ganlyn—y deil ein Heglwysi eu tir yn rhyfeddol yngwyneb llawer o anfanteision ac anhawsterau. Cydnabyddaf fod lle i welliant—lle mawr i welliant; nid oes un math ar sefydliad nad oes lle iddo wella; eithr anturiaf ddweyd mai testyn diolchgarwch a llawenydd ydyw fod y sefyllfa cystal ag y mae.

***

I'm tyb i, y wyrth fawr yw hyn—fod yr Eglwysi Undodaidd yng Ngheredigion mewn bodolaeth o gwbl. Y mae gennyf amryw resymau dros ddweyd hyn. Un ydyw'r rhagfarn ddall yn ein herbyn ffynnai mor gyffredinol. A ddywed rhywun wrthyf fod y rhagfarn ffynnai gynt yn erbyn Undodiaeth a phopeth Undodaidd wedi diflannu? Atebaf, ar bwys adnabyddiaeth cymharol hir o'r darn Undodaidd, ei fod, nid gryfed efallai, ond agos iawn gryfed ag y bu erioed. Ymhob cymydogaeth lle ceir Eglwysi Undodaidd—yn nyffrynoedd y Cerdin a'r Clettwr, y Cledlyn a'r Rannell, yr Aeron a'r Teifi—fe'i ceir; a'r newydd gore allai dorri ar glustiau'r mwyafrif o Iawnffyddwyr yr ardaloedd hyn fyddai'r newydd fod un neu ragor o'n Heglwysi wedi peidio â bodoli.

***

Dyma ffaith arall gwerth aros uwch ei phen am ennyd: o bobun o'n Heglwysi yng Ngheredigion fe gollir ymron yn flynyddol luaws o fobl ieuainc drwy ymfudiaeth. Dyna brofiad pob gweinidog—y colli dïòr o flodau eu cynnulleidfaoedd, heb son am y colli o rai o oedran addfetach. A phobl ieuainc o rodiad ardderchog ydynt ymron yn ddieithriad. Fe ymsefydlant hwnt ac yma hyd wyneb y ddaear, a llanwant leoedd pwysig a chyfrifol, lawer o honynt, ym mywyd masnachol, cymdeithasol, neu grefyddol y byd; a'r oll o honynt, ymron yn ddieithriad, fywyd defnyddiol. Credaf nad di-effaith ar eu cymeriad fu eu cysylltiad, yn nyddiau eu hieuenctid, ag un neu arall o'n Heglwysi; fod gan yr hyn ddysgwyd ganddynt yn yr Ysgol Sul a'r addoliad a sefydliadau eraill ran bwysig yn y ffurfiad o'u cymeriad. Credaf y cadarnheid y gosodiad hwn gan y mwyafrif mawr o honynt, pe'r apelid atynt. Nid methiant yw un Eglwys fedr roi rywfaint o help i rai ieuainc yn adeg bwysicaf eu bywyd.

***

Ymhellach, anturiaf ddweyd y lleinw pobun o'n Heglwysi le pwysig—y golyga pobun o honynt rywfaint

o leiaf fel dylanwadau dyrchafol—ym mywyd eu hymlynwyr. Gwir yw y gallent fod yn fwy llewyrchus: nid oes neb, poed weinidog poed leygwr neu leygwraig, na chydnebydd hyn. Oes rhyw achos—nid achosion crefyddol yn unig, eithr pob math ar achosion—na ellir dweyd y gallent fod yn fwy llewyrchus? Nid perffaith dim; eithr amherffaith popeth. Ac nid oes un gwir garwr o'r achos Undodaidd na hoffai i'n Heglwysi fod yn fwy llewyrchus. Eithr nid methiant mo honynt; na, yn bendant, nid methiant mo honynt.

***

Gadawaf y wedd Undodaidd o'r mater, a chroesaf dros y ffiniau i feysydd eraill, er cofnodi'm gwrthdystiad yn erbyn y gri gwcwaidd fyddarol fu mor gyffredin yn ystod y blynyddoedd diweddaf, ac nad yw wedi agos distewi eto: fod yr Eglwysi (nid Eglwysi Undodaidd yn unig, ond pob math ar Eglwysi) yn fethiant. Bu adeg, heb fod ymhell yn ol, pan ruthrai pobl ar draws eu gilydd yn eu hawydd i gyhoeddi megis o bennau tai fod yr Eglwysi yn fethiant. A gweinidogion, ysywaeth, oedd y pechaduriaid pennaf yn yr ymgyrch anghlodus. Y mae lle mawr i wella yma eto. Nid oes yr un o Eglwysi mawr cred na allai wneud rhagor o waith, a gwell gwaith. Yr wyf yn ddigon o waethafwr i gydnabod hyn. Y mae'r ffeithiau yn fy ngorfodi i gydnabod hyn. Eithr nid methiant mo honynt. Os oes un dylanwad iachach, mwy dyrchafol, na'r llall ym mywyd Cymru heddyw (Cymru, heb son am wledydd eraill), dylanwad yr Eglwysi yw hwnnw. Y mae yng Nghymru bump o enwadau poblogaidd—yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, yr Eglwys, y Methodistiaid, a'r Wesleyaid. Nid uwch ben yr un o honynt y gellir cyhoeddi'r ddedfryd o fethiant. Oes dim lle ganddynt i wella? fe ofynna rhywun. Oes, yn sicr; ac fe amcanant, bobun o honynt, am welliant. Ond dyma ffaith (a ffaith ydyw, ac nid honiad di-sail) y talai'r ffordd i bob gwaethafwr di-reswm i aros yn fyfyrgar uwch ei phen am ennyd, sef mai i Eglwysi Cymru, o bob enwad, yr ydym yn ddyledus nad ffos afiach, heb un man glan, yw bywyd Cymru heddyw.

***

Da iawn oedd gennyf ddarllen sylwadau'r Canon Peter Green ar y mater dan sylw mewn pregeth o'i eiddo yn Lerpwl ychydig Suliau yn ol. Ynghwrs ei bregeth, ceryddodd yn llym a difloesgni y cri parthed methiant yr Eglwysi. Cri yw hwn, meddai, duedda i wneud y sefyllfa lawer gwaeth nag ydyw, i ddigalonni ac nid i galonogi. Ceisiodd gan ei wrandawyr i feddwl am y gwaith mawr wneid gan yr oll o Eglwysi Lerpwl tu fewn i un wythnos i buro'r ddinas o'r ffosydd o bechod a'i hanurddai. Yna, ceisiodd ganddynt ofyn—pa faint wneir o'r un fath waith gan y lluaws tu allan i'r Eglwysi—gan y pedwar ugain y cant na thywyllant ddrws nac Eglwys na Chapel o ddechreu blwydd-yn tan eu diwedd. Tystiai Prif-gwnstabl Lerpwl wrtho, meddai, er mor isel oedd cyflwr moesol y ddinas, y dychrynai wrth feddwl beth fyddai ei chyflwr onibai am waith yr Eglwysi. Yr un oedd tystiolaeth Prif-gwnstabl Manceinion: diolchai bob dydd a phob awr o'r dydd am fodolaeth Eglwysi. Ie, dyna'r ffordd iawn o edrych ar y mater: testyn diolch yw bodolaeth Eglwysi, hyd yn oed fel y maent; yr hyn, o'i gyfieithu, yw—nad methiant mo honynt. Y maent yn fethiant yn yr ystyr nad ydynt yn medru gwneud ond cyfran fechan o'r hyn sydd eisiau ei wneud. Belled ag y galluogir hwynt gan eu hadnoddau, y maent yn llwyddiant—nid yn llwyddiant i'r mesur sydd bosibl, ond yn llwyddiant er hynny. Os oes lle i welliant, fel y mae (nid oes neb na chydnebydd hyn), gwnaed

pob aelod a phob ymlynwr o'r Eglwysi, Undodaidd fel heb fod yn Undodaidd, eu rhan i sicrhau gwelliant.

***

Wedi i mi ysgrifennu'r uchod, darllenais adroddiad o bregeth gan Archddiacon Mynwy (yr Hybarch D. H. Griffiths, M.A.), yn yr hon y dyry fynegiad i'r un olwg ar y mater ag a wnai'r Canon. Wrth gyfeirio at gyhuddiad o fethiant yn erbyn yr Eglwys gan rywun pwysig na enwyd ym myd masnach, dywedodd "fod hawl ganddo ef (yr Archddiacon) i ofyn iddo (i'r cyhuddwr) pa faint oedd ef wedi wneud i ddal i fyny freichiau'r offeiriaid a'r gweinidogion i daenu'r Efengyl yn ardaloedd poblog ei sir." "Wrth deithio o hono drwy un o ardaloedd poblog ei sir yn ddiweddar, ni allai lai na sylwi ar yr amgylchedd budr yn y rhai y dygid bechgyn a merched i fyny. Beth wneid gan awdurdodau'r gweithfaoedd i wella'r amgylchoedd hyn? Faint o werth sydd yng nghyhuddiad dyn a gynrychiola filiynau o bunnoedd o fethiant yn erbyn yr Eglwys, ac yntau heb gymaint a chodi bys i ysgafnhau beichiau'r bobl tan ei awdurdod." Ie, dyna'r unig ffordd i ateb y bobl hyn a gyhoeddant fethiant uwch ben yr Eglwysi—pa faint wneir ganddynt hwy dros eu gwneud yn llwyddiant? Ac fel rheol, dyna'r bobl sy'n gwneud lleiaf.

***

Pan oddiweddir dyn gan afiechyd a berygla fywyd, fe orfodir y meddyg i ddefnyddio'r gyllell i symud yr achos. Goruchwyliaeth anhyfryd ydyw—i'r claf ac i'r meddyg; ac er yn angenrheidiol tan rai amgylchiadau, eto gochelgar iawn yw'r meddyg profiadol—ni ddefnyddia'r gyllell oni bydd raid. Fe all y gwaethafwr, ond iddo osgoi sylthio'n rhy bell i grafangau'r ysbryd gwaethafol, ateb diben cyffelyb i ddiben y gyllell yn llaw'r meddyg. Tu fewn i derfynau rhesymol, nid drwg i gyd yw tuchaniadau'r gwaethafwr. Yn y gorwneud o'r peth y mae'r drwg. O orwneud y peth, fe all fod yn graig rhwystr i laweroedd, a pheri iddynt golli pob ffydd, a digaloni a llaesu yn eu hymdrechion o blaid popeth gwir a da. Galanastra yw hyn lle bynnag y digwydd. Na anwesed y gwaethafwr yr ysbryd tuchan yn ormodol. Yr ysbryd gorafol rhesymol yw'r gore a'r dymunolaf ei ddylanwad.

SYLWEDYDD.

TADOLDEB DUW.

Medd ysgrifennydd, 'Os oes yna un gwirionedd yn fwy nag unrhyw un arall yn cael ei ddal heddyw gan yr holl eglwysi Cristionogol, Tadoldeb Duw yw hwnnw.' Ac eto pe byddai i un ddyfod yn groes i faesydd rhyfel Ewrop, a dywedyd wrthym, nas gallai gredu'n Nhadoldeb Duw, byddem yn deall yn gywir yr hyn a olygai, a byddem yn dueddol, o bosibl, i gydymdeimlo, mewn rhan, a'r rhesymau tros ei ddiffyg cred. Pe y dywedai wrthym am y dioddefaint a welwyd ganddo'n Ysbytai Ffrainc; pe y cymerai ni gydag ef i Poland, ac y cyfeiriai at y plant yn

marw o newyn ar ochr yr heolydd, neu ar faesydd unig, a phe y dywedai wrthym am fil a mwy o bethau dychrynllyd eraill mewn gwahanol fannau—byddem yn gallu ei ddeall pan y dywedai. Sut y medrwch siarad am Dduw fel Tad? Os oes yna Dduw, ac os yw Duw'n Hollalluog a Da paham y caniateir ganddo bethau o'r fath! Naill ai nid oes yna Dduw, neu nid yw Efe y fath ag y mae Crefydd hyd yma wedi ei ddarlunio ef.

Y mae meddyliau o'r fath, os nid geiriau o'r fath yna'n gyffredin iawn yn y dyddiau presennol. Dyrysir pobl, ac achosir iddynt gloffi rhwng dau feddwl. ac arweinir hwynt i ffwrdd oddiwrth ffydd ysprydol seml, iach a dynol. A'r gwir yw, nad oes yr un athrawiaeth wedi dioddef cymaint, ar gyfrif y rhyfel diweddar, a'r athrawiaeth o Dadoldeb Duw, ac y mae'r gred a arferid ystyried mor syml fel pe mewn perigl, wedi'r cwbl, o ddod y gred mwyaf anhawdd i'w dal.

Ond beth sydd i'w ddeall wrth y syniad Cristnogol cyffredin yma gyda golwg ar Dduw. Beth ydym i'w ddeall wrtho? Y mae'r ymadrodd Tadoldeb Duw wedi dod mor gyneſin i ni fel mai o braidd yr ydym yn ei werthfawrogi fel y dylem, ac yn cofio am y chwyldroad a ddygwyd oddiamgylch gan yr ymadrodd, a'r syniad. Ond y mae'n wir nad i Gristionogaeth yn unig y perthyn yr anrhydedd o alw Duw'n Dad. Ond y mae'n wir hefyd ddarfod i'r Iesu pan ddywedodd ar ddechreu y weddi a roddwyd ganddo i'r byd, 'Am hynny gweddiwch chwi fel hyn: Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,' agoryd drws i syniad hollol newydd am berthynas Duw a dyn. Ac yn raddol daeth yr eglwysi Cristionogol i weld pwysfawredd y syniad, a rhoddasant i fyny y meddwl am Dduw fel Brenin, oherwydd deallent o'r diwedd beth oedd y gwirionedd canolog yn nysgeidiaeth grefyddol yr athraw. Tad oedd Duw iddo ef—nid teyrn, ond Bod a'r hwn yr oedd ef yn dal perthynas. Byddai efe ei hunan yn ei weddiau yn ei gyfarch ef fel Tad, a dyna'n modd y dysgai efe ei ddisgyblion i weddio. Ond y mae yna wedi bod, ac i fesur yn parhau eto—oherwydd y cyflwr y mae'r byd wedi mynd iddo; a'r swm anrhaethol o ddioddefaint a geir ynddo—mae'r athrawiaeth yna'n dyfod yn un o'r rhai mwyaf anhawdd, o bob addysg grefyddol, i lynu wrthi a'i chysoni a'r pethau a ffynnant. Ac un o'r rhesymau paham yr ymddengys mor anhawdd yw fod y mwyafrif o bobl yn dechreu lle y dylent orffen. Hynny yw, dechreuant gyda'r elfen o gariad, a gofal, ac amddiffyn. Meddyliant, pan yn siarad am Dadoldeb Duw, am Ragluniaeth yn cyfarwyddo, am Galon alluog wrth ganolbwynt y cydfyd, am alluoedd sydd a chariad yn gynnwysedig a hwynt; am Ddeddf a orffwys ar gariad. Ond nid dyna'r meddwl cyntaf a sylfaenol pan yn siarad am Dduw fel Tad. Yr elfen gyntaf a sylfaenol mewn tadoldeb dynol yw nid serch, ond perthynas yw. Gall y tad garu, neu beidio caru a chyfarwyddo, ac helpu ac amddiffyn y plentyn. Ond nid all plentyn fyned i ffwrdd, na gwadu rhwymau y berthynas ddofn, y rhai a'i cylymant wrth ei dad. Mae'r ddau yn yr ystyr ddyfnaf yn berthynasau. Mewn ystyr y mae'r ddau'n un. Hefyd, y syniad cyntaf a sylfaenol am Dadoldeb Duw yw y syniad o berthynas. Yr ydym ni, fel yr ydym, a chan nad beth ydym, wedi ein dwyn i fodolaeth ganddo ef. Mae'n bosibl i'r tad beidio dal gafael ar y plentyn, a chymell ei ewyllys arno a'i amddiffyn; ond, o leiaf, gwyr y plentyn o ba le y tarddodd ei fywyd, a pha allu yw'r hwn a roddodd iddo ei enedigaeth—nid estron yw, ond etifedd.

Dyna'r egwyddor gyntaf a sylfaenol am Dadoldeb Duw, ac mae'n egwyddor nas gallwn ei gwneud yn rhy eglur a llawn o fywyd i ni ein hunain. Ac y mae'n bwysig, ar hyn o bryd, am ei bod yn tueddu i wneud i ffwrdd a'r elfennau amheuaeth a

achosir gan ddioddefaint dynol. Y mae'n helpu ychydig bach i ddeall y pethau a gymerant le.

Nis gall tad, mewn ystyr ddynol a daearol, gadw ei blentyn bob amser rhag gwneud drwg, a dilyn delfrydau gau, a rhedeg i bechod a chreulonder, ond pan mae'r plentyn yn ymddwyn felly y mae'r tad yn dioddef yn ei ddioddefaint ef, ac yn gofidio am ei gamsyniadau, a chais wneud yr oll a fedr i'w arwain yn ol, a'i helpu i ddod i feddiant o'i ryddid. Ni a gredwn mai felly y mae gyda phethau mwy. Y mae dyn wedi bwyta o bren gwybodaeth, ac y mae'n mynd yn ei ffordd ei hun. Ond nid yw'n canlyn ei fod yn mynd wrtho ei hunan pan yn gadael cartref, ac yn mynd i wlad bell. Yr wyf yn caru meddwl am Dduw fel yn dioddef heddyw, a phob amser yn nioddefaint dynion, ac ar yr un pryd yn gweithio trwy feddyliau, a chalonnau, a chydwybodau dynion a benywod i geisio ganddynt ymdrechu dod i feddiant o ddyfodol ardderchocach a disgleiriach a gwell. Nis gadewir ni'n y byd yma heb Dduw ar unrhyw adeg. Yspryd Duw, sef Yspryd y Tad, sydd yn gweithio trwy ddewrder arwyr, a thristwch y galarus a'r cystuddiedig, a'r oll yn cael eu bwriadu i wneyd trefn ardderchocach a gwell ym mhlith dynion.

Ond y mae yna ystyr arall ac uwch yn y syniad am Dadoldeb Dvw. Os yw Tadoldeb yn golygu perthynas, yna y mae'n rhaid fod yr hyn sydd ore ac uchaf yn yr hiliogaeth fod wedi tarddu o ryw ffynnon heb fod yn llai uchel a da. Y mae'n rhaid i ddyn wrth rywbeth i egluro a chyfrif am ei fodolaeth ei hun, ac am yr hyn sydd ore ynddo. Y mae i ddyn ei ochr ddaearol, yn sicr; ond nid yw efe'n gwbl o'r ddaear.

Pan yn siarad am ddyn, yr ydym yn meddwl am gariad, a dyledswydd, am hunan-aberth, a gwasanaeth egniol tros yr hyn sydd iawn. Ond o ba le y daeth dyn i feddiant o'r amrywiol alluoedd sydd ganddo? Rhaid yw fod y byd yn cynnwys rhywbeth yn rhywle digonol i'w cynnyrchu hwynt. Byddai dywedyd ei fod wedi eu hetifeddu'n golygu ei fod wedi eu hetifeddu oddiwrth rywbeth. Nis gall dim gyfrif am fodolaeth dyn ond y Duw a'r Tad Anfeidrol. Gan nas gall cariad greu ei hunan, ac nas gall daioni gael ei ddatblygu o fater oer a dideimlad, rhaid i'r galon ag sydd mewn dyn, a'r greddfau sanctaidd a adnabyddir gennym, megis tynerwch a charedigrwydd, fod wedi tarddu oddiwrth rywbeth yn y byd dynol—rhoddi genedigaeth iddynt. Y mae enaid dyn yn gwneyd yn angenrheidiol y meddwl am Enaid yn y cydfyd, a'r oll y mae Enaid yn ei olygu. Os nad oes yn y Gallu nerthol hwnnw'n y byd oddiwrth yr hwn y tynnir gennym anadl einioes rywbeth ag sydd yn ateb i'r hyn a adnabyddir gennym ni fel calon, o ba le gan hynny y daeth y cariad, y tynerwch, y cydymdeimlad a wnaethant fywydau dynion dirif a benywod dirif mor ardderchog a rhyfeddol hardd, ym mhob oes a gwlad.

Oddiar reidrwydd dwfn ein bodolaeth ein hunain, gan hynny, yr ydym yn cael ein dwyn i afael meddwl mwy a llawnach am Dadoldeb Duw. Yn y fel yna y ceir gafael gennym yn y syniad am dosturi, daioni, cyfiawnder, a chariad anfeidrol. Am ein bod ni'n caru, y mae'n rhaid mai Cariad yw Efe—neu, yn hytrach, rhywbeth mwy na dim fedr ein meddyliau ni ei gwmpasu am Gariad, neu ei ddesgrifio mewn geiriau.

Nis gallwn ei egluro i ni ein hunain, na'i wneud yn gwbl sylweddol. A phaham y dylem? Nis gallwn lwyr egluro ein hunain. Ond rhywfodd y mae gennym ddigon o sail dros ymddiried; ac yn y teimlad yma o ymddiriedaeth, y mae gofalon a phryderon gormodol yn diflannu ymaith. Y mae y cariad dynol yma'r ydym yn brofiadol ohono, a'r help dynol y gorffwyswn arno ac y gorfoleddwn ynddo, wedi tarddu o ffynnon uwch na ni ein hunain. Ni roddant i ni ond awgrymiadau fod yn

yr uwch na ni ein hunain ddyfnder anfesuradwy o dynerwch a doethineb, y rhai nis gallant lai nag amlygu eu hunain mewn myrdd o ffyrdd anadnabyddus i ni. Y mae y ffydd hon wedi bod bob amser yn ffydd y rhai mwyaf ffyddlon, a nerth y rhai fyddent yn cael eu codi i fyny mewn ymddiriedaeth a gobaith. Dyma'r hyn sydd yn rhoddi cysur ini pryd y byddem heb hyn yn cael ein taflu i lawr, a'r hyn a anadla i'r enaid dangnefedd tawel a pharhaus.

Hyd yn oed, gan hynny, pan y mae pethau'n fwyaf ofnadwy, a mwy na all ein calonnau eu dioddef, na'n meddyliau eu deall, y mae gennym seiliau dros deimlo fod yna ddyfnderoedd o gydymdeimlad anfeidrol yn llifo allan oddiwrth orsedd wen Duw, o'r hwn nid yw ein cydymdeimlad a'n tosturi ni ond myrnegiant gwan yn unig. Er fod 'ymladdau oddiallan, oddifewn ofnau,' gallwn ddywedyd gyda'r gwr trwmlwythog a mawr o ddoniau hwnnw gynt, 'Eich Duw.' 'Un Duw a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynnoch oll.'

ORMOND.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Ni ddetbyniasom adroddiad, fel y mae yn arferiad, am y cyfarfodydd uchod, y rhai gynhaliwyd yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, ar ddyddiau Mercher ac Iau, Tachwedd 22 a 23, 1922. Os y medrwn ymddiried i'n cof, pregethwyd gan y rhai canlynol—y Parchn. Lewis Williams, D. Conwil Evans, T. Oswald Williams, B.A., E. O. Jenkins, y Dr. Henry Gow, B.A., a T. Arthur Thomas. Yr oedd hefyd yn bresennol y Parchn. D. G. Rees, —— Andrew, Highland Place, W. J. Phillips, ac E. R. Dennis, gweinidog y lle, y rhai fu'n arwain y rhannau defosiynol. Yr oedd hefyd yn bresennol yn rhai o'r cyfarfodydd weinidogion perthynol i enwadau eraill yn Aberdar, a da oedd gennym weled eu hwynebau. Cynulliadau bychain gafwyd ag eithrio y gwasanaeth olaf. Dywedwyd wrthym na fedrai'r glowyr ac eraill fforddio gadael eu gwaith yng nghanol yr wythnos. Cafwyd ymdrafodaeth ddiddorol ar bapyr ddarllenwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, ac a ymddangosodd yn YR YMOFYNYDD. Addawyd ymdrafodaeth bellach ar dudalennau'r YMOFYNYDD, ond nid oes yr un gair wedi ymddangos eto. Pwy wna ddechreu? Nid oedd yr hen dad ffyddlon, y Parch. R. J. Jones, M.A., yn medru bod yn bresennol, ac awdurdodwyd dau o'r gweinidogion gan y Gymdeithas i gludo iddo ddymuniadau goreu'r frawdoliaeth a'r eglwysi. Gwnaeth eglwys yr Hen Dy Cwrdd gofio am anghenion y dieithriaid. Llefarwyd gair o groesaw cynnes gan Mr. Tyssul Davies yn absenoldeb Mrs. Rees Llewelyn, Y Bwllfa.

Cynhaliwyd Pwyllgor Hydref y Gymdeithas yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, bore Iau, Tachwedd 23, yr is-lywydd, y Parch. T. O. Williams, B.A., yn y gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Blynyddol. Darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. Simon Jones, B.A., Nottingham, yn gosod allan safle 'Cronfa'r YMOFYNYDD.' Dywedai

Mr. Jones fod £40 8s. 1c. wedi eu sicrhau, a'i fod yn mawr obeithio y delai'r gweddill i law cyn diwedd y flwyddyn. Y swm yr amcanwyd ati oedd £60, felly mae £20 yn eisiau eto. Awgrymai Mr. Jones fod llawer allent, ac yn wir ddylent gyfranu, heb wneud hynny. Pasiwyd ein bod yn gwneud apêl daer at y cyfryw ar iddynt ddanfon eu tanysgrifiadau i Mr. Jones yn ddioedi. Pasiwyd hefyd fod y Meini Coffa ag y mae y cyfeillion Undodaidd Americanaidd wedi ddanfon drosodd er cadw enw a choffadwriaeth y diweddar Barch. Jenkyn Lloyd Jones, ar glawr i gael eu dadorchuddio a'u cysegru dydd Mercher, Rhagfyr 6. Fod trefn y cyfarfodydd y dydd hwnnw fel y canlyn—am 11 o'r gloch, dadlenu a chyflwyno y maen coffa ym Mlaenralltddu—y tŷ y ganed J. Lloyd-Jones ynddo. Am 2 o'r gloch, dadorchuddio a chyflwyno'r maen coffa yng Nghapel Pantdefaid. Am 6 o'r gloch, pregethir ym Mhantydefaid gan y Parchn. T. O. Williams, B.A., a D. G. Rees. Pasiwyd ein bod yn gofyn i Mr. Thomas Thomas, Cross Inn Farm, Llanfihangel-ar-Arth—cefnder Jenkyn Lloyd Jones, i ddadorchuddio y maen ym Mlaenralltddu, a Mrs. Thomas, y Bryn, Llanybyther, yr un yn y capel. Addawodd y Parch T. A. Thomas dalu ymweliad a Rhydypaic, ac i ddod ag adroddiad o safle pethau yno i Bwyllgor y Pasc, 1923. Pasiwyd ein bod yn gofyn i gynulleidfa Capel y Bryn, i dderbyn Cyrddau y Pasc.

PRIODASAU.

Ionawr 2, yng Nghapel y Methodistiaid, Pembroke Terrace, Caerdydd, gan y Parch. John Roberts, M.A., yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. L. Williams, Capelybryn, unwyd mewn priodas Mr. John James Evans, B.A., mab Mr. Enoch a Mrs. Mary Evans, Blue Bell, Cwrtnewydd, ac athraw yn Ysgol Sir, Abergwaun, â Miss Eleanor Davies, B.A., merch Mrs. Jones-Davies, a'r diweddar Barch. Jones-Davies, Taffs Well, ger Caerdydd, ac athrawes yn Ysgol Sir, Abergwaun.

Diweddwyd (newydd diddan!)—unig-edd
Ioan Iago Ifan ; [
Can's daeth Neli, lili lân,
Yn briod bêr i Ioan.

Heulwen i'w bardd fo Neli—ag yntau
Yn gantor pêr iddi ;
Englyned yng ngoleuni
A mwynhad ei chwmni hi.
Rhodded Iôr i'r ddau dirion—ei
A'i arweiniad graslon ; [wenau
Lleisiau tlws i'w lluest lon
A theg bethau'u gobeithion.

Parch. J. T. Job.

Ionawr 19, yng Nghapelybryn, Cwrtnewydd, gan y Parchn. L. Williams, gweinidog, a D. Morris Jones, Drefach, a cherbron y cofrestrydd, Mr. Evans, Llanybyther, unwyd mewn priodas Howell Price, mab Mr. a Mrs. Price, Cefncoed Villa, ger Alltyblacca, â Miss Sarah Jenkins, Tancoed, merch Mr. a Mrs. Griffith Jenkins, Landre, ger Cwrtnewydd, a nith i'r diweddar Barch. J. Davies, Tancoed. Hir oes a dedwyddwch fyddo iddynt.

MARWGOFION

MEDI 27ain, yn 13 niwrnod oed, Rachel Eluned, annwyl blentyn Tom Lloyd (Llysfaen-uchaf gynt) a Rachel Lloyd (Caerfoel gynt), 1 Abbeyfield Road, Rotherhithe. Claddwyd yn Nunhead Cemetery, y Llun canlynol, y Parch. M. A. Edwards, o Gapel Falmouth Road, yn gwasanaethu. Priodol iawn i'r amgylchiad y geiriau ar y cerdyn coffa :—

Adieu, sweet babe, short was thy stay,
Beloved so much, yet called away ;
Thy angel face we loved to see,
Too soon we were deprived of thee ;
Sleep on, dear babe, and take thy
rest,
God calleth those he loveth best.

TACHWEDD 27, yn 24 mlwydd oed, Dilla Lamb, merch Phillip a Catherine Lloyd, Hafodybryn, Trebanos, a gwraig John R. Lamb, Derby Street, Newcastle-on-Tyne. Cydymdeimlir â'r gweddw a'r ddau fach a adawyd heb fam, ynghyd a mam a thad, chwiorydd a brodyr, &c. Claddwyd with Gellionen, y dydd Iau dilynol, pryd y gweinyddodd y Parch. D. G. Rees, ac y cynorthwyodd y Parch. D. John, Gosen.

RHAGFYR 19. Evan Lloyd Jones, annwyl faban Tom a Hannah Jones (gynt o Frondeg, ger Cribyn), 12 Baptist Well Place, Abertawe, yn chwech wythnos oed. Claddwyd yng Nghladdfa Cwmgelly, a gweinyddwyd gan y Parch. Edward Jones, M.A., Ebenezer. Wyr i Evan a Jane Davies, Frondeg, Cribyn, oedd yr un bychan. Er iddo gael ei symud yn fore, eto gadewir lle gwag iawn ar ei ol. Ymgysurent â'r gobaith y

" Daw eto'r dydd, a'n plant a gawn
I'n breichiau'n llawn llawenydd."

RHAGFYR 23, yn 46 mlwydd oed, ar ol cystudd byr a chaled, bu farw John Saunders James, Teify Side Stores, Cwmanne, Llanbedr. Yr oedd yn edrych mor gryf ac iach fel y medrem broffwydo iddo hir ddyddiau, ond daeth yr alwad yn gynnar yn y prynhawn. Gwr caredig a chymwynasgar ydoedd, ac iddo air da am garedigrwydd a chymwynasgarwch gan liaws ei gydnabod. Y dydd Mercher canlynol daearwyd yr hyn oedd farwol ohono ym mynwent Eglwys Brondeifi, yr angladd yn anghyoedd yn y ty. Gwasanaethwyd yn y ty a'r Capel gan y Parch. T. O Williams, B.A., gyda chynorthwy caredig y Parchn. R. C. Jones a Daniel Jones Gadawodd ddau fab ieuanc yn hollol amddifad o'i golli, heblaw perthynasau eraill. Bydded i Dad yr amddifaid wylio drostynt.

RHAGFYR 28, Mr. Evan Thomas, St. Margaret's, Cedar Avenue, New Barnet, Llundain. Yn mhen tuag awr ar ol ei hwyr fwyd y dydd uchod aeth i'r *bathroom* yn ei dŷ i gael *bath*, fel yr arferai wneud yn fynych. Gan na ddelai oddiyno ym mhen yr amser yr arferai ddod, aeth ei briod i edrych am dano, a chafodd ef yn y *bath* yn farw. Anfonwyd am feddyg ar unwaith. Gwnaeth hwnnw drengholiad, a chafodd fod y galon mewn sefyllfa ddiffygiol iawn. Barn y trengholwr hefyd oedd mai diffyg ar y galon oedd achos ei farwolaeth. Mab ydoedd i'r diweddar David a Gwen Thomas, Tanralltgoch, Cwmtnewydd. Bu yn y Fyddin am dair blynedd, a pherthynai i'r *Garrison Artillery*. Cychwynodd fel egwyddorwas mewn masnachdy yn Pencader. Yr oedd ynddo gymhwysder masnachwr, ac yr oedd wedi llwyddo i ddyrchafu ei hun i fod yn Rheolwr a Phrynwr i gyd-fasnachwyr brethynau yn Palmers Green. Bu ei briod

am lawer o flynyddau yn Brynwraig i'r masnachdy mawr ac enwog, y Selfridge's, Llundain. Yn ddiweddar y mae wedi cychwyn masnach ei hunan mewn nwyddau i foneddigesau yn Romford. Ymwelai yr ymadawedig a'i ardal enedigol bron bob haf, a lletyai gydag un o'i chwiorydd, Mrs. Hannah Davies, Pleasant View, Alltyblacca. Cawsai groesaw cynnes gan bawb o'i gydnabod yn ei hen ardal. Yr oedd yn hynod am ei ysbryd caredig a siriol, yr hyn oedd wedi enill iddo lu o gyfeillion yn y Brifddinas. Claddwyd ei weddillion yn Brunswick Park, a gwasanaethwyd gan y Parch. Mr. Nicholas, Castle Street, Llundain. Amlygwyd parch mawr iddo, a chydymdeimlad dwys a'i briod. Yr oedd y plethdorchau a osodwyd ar ei fedd yn rhifo ugain. Gadawodd briod, dau frawd, tair chwaer, ac amryw o neiaint mewn galar mawr ar ei ol.

Ionawr 4, yn 81 oed, bu farw Jane Jones, gweddw y diweddar Oliver Jones, Islwyn, Cribyn. Dioddefodd hir nychdod, a da i'r olwg ddynol oedd iddi gael ei rhyddhau. Yn ystod ei chystudd a blynyddoedd olaf ei bywyd cafodd bob ymgeledd a thynerwch fedrai ei mab a'i merch-yng-nghyfraith estyn iddi. Heblaw mab, gadawodd hefyd i alaru ar ei hol dri ŵyr, dau o'r rhai fagwyd ganddi ar ol colli o honynt eu rhieni yn eu babandod, y rhai a'i hystyrient fel mam iddynt (a bu'n fam iddynt yn nghyflawn ystyr y gair). Benyw dawel, ddiwyd, ddeheulaw iawn ymhob gwaith perthynol i'r fenyw ydoedd ; a theimla cylch ei hadnabyddiaeth gryn chwithdod ar ei hol. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent y Cribyn y dydd Llun canlynol, y cynhebrwng yn anghyhoedd ; a gwasanaethwgd gan D. Evans, gweinidog y lle.

Rhagfyr 29, yn 67 oed, Mary Jones, Cambden, Capel Dewi, Llandyssul. Yr oedd ei mham, Peggy Cambden, yn un o ffyddloniaid Llwynrhydowen yn y blynyddau gynt, a thra yn trigo yn yr ardal bu hithau'n ffyddlon yno hefyd. Benyw dawel, siriol, a diniwed oedd Mary Jones. Gadawodd frawd a pherthynasau eraill mewn galar o'i cholli. Claddwyd y Mawrth canlynol ym mynwent Bethel, Capel Dewi, a gwasanaethwyd gan y Parchn. H B. Pugh, (W.), a E. O. Jenkins.

Ionawr 10, ar ol cystudd caled, Mary (Mally), annwyl briod Watkin Davies, Tanfron, Capel Dewi, Llandyssul, yn 81 oed. Claddwyd y Sadwrn canlynol ym mynwent Llwynrhydowen, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, T. A. Thomas, a H. B. Pugh (W.) Benyw ddiwyd, ddarbodus ydoedd, a'i hawydd mawr mewn bywyd oedd cadw aelwyd glyd, a gwneud ei rhan yn dda dros ei phlant. Credwn iddi lwyddo'n ei dymuniad. Yr oedd yn fenyw onest, wynebagored, ac ni fedrai gario dau wyneb. Er mai gair garw fyddai'n flaenaf weithiau eto yr oedd yna galon garedig y tu ol iddo. Tua hanner blwyddyn yn ol collodd fab, yr unig blentyn ag oedd heb adael yr aelwyd, a chredwn iddi deimlo'r ergyd i'r dwfn. Cydymdeimlir yn fawr a'r priod oedranus sydd wedi ei adael mor unig. Heblaw efe gadawodd ferch, tri mab, a llawer o berthynasau ereill i wylo ei cholli.

Ionawr 14, yn 84 mlwydd oed, bu farw Joseph Hartley, Coedeiddigfach, Pencarreg. Yr oedd wedi dihoeni er's amser bellach. Genedigol ydoedd o Abergele, Swydd Dinbych, lle yr oedd ei dad yn *Excise Officer*. Hen wr caredig, syml a diymhongar ydoedd, wedi treulio ei oes faith i'r pen yn ddirwgnach. Y dydd lau canlynol claddwyd ei weddillion marwol ym mynwent eglwys Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan y Parch. T. O. Williams, gyda chynorthwy caredig y Parchn. R. C. Jones a Daniel Jones. Gadawodd weddw yn unig i wylo'i cholled.

MANION AC HANESION.

ALLTYBLACCA.—Rhoddwyd Beibl hardd i'r Eglwys hon gan Mrs. Thomas, Y Bryn, Llanybyther. Defnyddiwyd ef am y tro cyntaf y Sul cyntaf o'r flwyddyn hon. Teimla y gynnulleidfa yn ddiolchgar iawn iddi am ei hanreg werthfawr.

LLWYDDIANT.—Da gennym gofnodi llwyddiant Miss May Jones, merch hynaf Dr. E. Jones, Y.H., C.S., a Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybyther, yr hon sydd wedi myned yn llwyddianus drwy y *Cambridge Senior Local Examination.* Yr oedd Miss Jones yn ddisgybl yn South Lynn Girls' School, Eastbourne, ac wedi myned yn llwyddianus drwy y *Cambridge Junior Local Examination* o'r blaen.

CAPELYBRYN.—Ar y Sul cyntaf o'r flwyddyn bresennol, derbyniwyd pedwar-ar-hugain yn aelodau newydd o'r Eglwys hon. Da gennym weled weithiau arwyddion o lwyddiant gyda'r achos gore ; a ni a hyderwn y bydd perthynas y cyfeillion hyn a'r eglwys yn nerth i'r eglwys, ac yn foddion lles ysbrydol i'w bywydau hwythau.——Nos Nadolig, cynhaliwyd cyngherdd gyssegredig ac undebol yn y capel hwn. Dim ond plant eglwysi Capelybryn a Seion gymerai ran, ac yr oedd pob un o honynt o dan un-ar-bymtheg oed. Er mor ieuainc oeddynt, yr oedd y cyfarfod yn un o'r rhai goreu a gafwyd erioed yn y lle. Yr oeddynt wedi cael eu haddysgu gan Mrs. Z. Cledlyn Davies, yr hon, ynghyd a Mr. D. Cledlyn Davies, fuont yn llafurus iawn am rai misoedd yn paratoi ar gyfer y cyfarfod. Y noson hon daeth eu llafur, a'u gallu fel athrawon i ddysgu plant, i'r golwg yn y ffordd fedrus yr aeth y plant drwy eu gwaith. Y peth prydferthaf a ddatganwyd oedd alawgân, "Y noson gyssegredig," yn portreadu genedigaeth yr Iesu, ynghyd a'r digwyddiadau cysylltiedig â hyny, fel y mynegir hwy yn yr Efengyl. Cafodd y bugeiliaid, y doethion, yr angel, a'r llu nefol, ynghyd a'r seren, a'r baban, eu harddangos mewn modd galluog ac effeithiol iawn. Priodol iawn oedd y darluniad hwn ar noson Nadolig. Yr oedd geiriau yr alaw wedi cael eu cyfieithu i'r Cymraeg ar gyfer y cyfarfod hwn gan Mr. D. Cledlyn Davies. Yn ychwanegol at y carolau a ddatganwyd cafwyd hefyd adroddiadau. Y cyfeilyddesau oeddynt Miss Pughe, Bryngranod ; Miss Davies, Penlannoeth, a Miss Jones, Lletty'rwenol. Chwareuwyd ar y crwth gan Mr. David Jenkins, Glynmeherin. Llywyddwyd gan y Parch. L. Williams, ac arweiniwyd gan y Parch. E. Glyn Edwards. Cynygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Mr. a Mrs. Cledlyn Davies am eu llafur gyda'r plant, ac i'r cyfeilyddesau a'r crythwr gan Mr. James Davies, ysgolfeistr, Rhydypennau, ac eiliwyd gan Mr. John James Evans, B.A., Blue-bell, athraw yn Ysgol Ganolraddol Abergwaun, a dygodd y ddau dystiolaeth uchel iawn i allu ac i wasanaeth werthfawr Mr. a Mrs. Davies gyda'r plant. Siaradwyd hefyd gan Mr. Thomas Davies, y Felin, a Mr. Evan Evans, y Garth. Er fod y capel yn orlawn, ymddygodd pawb drwy y cyfarfod yn hollol weddaidd. Terfynwyd drwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau."

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yn y Graig, nos Nadolig, y cafwyd, fel arfer, ein Cyfarfod Adloniadol Blynyddol, a daeth ynghyd dorf dda iawn i fwynhau rhaglen wedi ei pharatoi gan Mr. Hopkin Jones, ac ereill. Cyfeiliwyd gan amryw frodyr parod, a chawd amrywiaeth da. Roddodd cor plant Gellinudd, amheuthyn yn y datgeinion melus. Cofied y côr y daw eto Nadolig, ac y bydd yn y Graig gynes roeso.

Y Parch. D. G. Rees rowd i ofalu am y llywyddiaeth, yr hyn a wnaeth tan gamp.— Eto, yn yr un lle, tan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliadol, a than arweiniad Mr. Joseph James, Trebanos, a chyfeiliad Mr. Isaac E. Hopkin, Trebanos, mwynhawyd Cwrdd Adloniant a Chystadleuaeth. Adroddwyd, a chanwyd, a chystadleuwyd, yn enwedig ar y 'stori ore.' Melus, moes eto.

LLANDYSSUL.—Cynhaliodd Ysgol Sul Capel y Graig ei Gwyl Dê Flynyddol ar ddydd Calan. Rhoddwyd y wledd gan Mrs. William James, Brynhyfryd, a Mr. a Mrs. James, Richmond Villa, i'r rhai y mae ein diolchiadau cynhesaf yn ddyledus. Yn yr hwyr cynhaliwyd Cyngherdd gan y plant ac aelodau'r Ysgol Sul. Gwnaeth pob un ei ran yn ganmoladwy, a chafwyd elw da. —— Nos Sul cyntaf o'r flwyddyn rhannwyd y 'Penny Bank,' sef yr arian dalwyd i fewn gan aelodau'r Ysgol Sul yn ystod 1922. Yr oedd y cyfanswm rannwyd yn £313 14s. 11c. Yr un noson rhannwyd hefyd anrhegion am gadw'r ysgol yn ffyddlon. Boed hyn yn symbyliad i ragor o weithgarwch a ffyddlondeb.

PANTDEFAID.—Nos Fercher, traddododd y Parch. E. O. Jenkins ddarlith ddyddorol yng nghapel Pantdefaid, ar y testun poblogaidd, 'Wil Bryan.' Daeth cynnulliad da ynghyd, a gwnawd elw rhagorol, yr hwn a gyflwynwyd i Mr. William Lewis, Pontshan, yr hwn sydd yn wael ei iechyd er's amser hir.

CAERDYDD.—Dechreuodd y Parch. Herbert Jones ar ei waith yn West Grove Unitarian Church, dydd Sul, Ionawr yr 21ain. Ei gyfeiriad ydyw 143 Donald St., Roath Park, Cardiff. Dymuna Mr. Jones wneud apêl at weinidogion ein heglwysi, ac at bawb wyddant am Undodiaid yn ninas Caerdydd, i ymohebu ag ef er ei hysbysu am y cyfryw, fel y byddo iddo dalu ymweliad a hwy. Dymunwn iddo lwyddiant mawr.

TRYSORFA'R YSGOL SUL.—Pantydefaid, £1 2s. 2c.

TRYSORFA'R 'YMOFYNYDD.'—— Dymunir cydnabod gyda diolchgarwch y symiau canlynol :—

	£	s.	c.
Mrs. Davies, Plasycoed, Gorseinon	1	1	0
Mrs. Williams, Aberayron	0	5	0
Y Parch. Herbert Jones, Caerdydd	0	5	6
Y Parch. Arthur Thomas, Llandyssul... ...	0	10	0

Y mae angen oddeutu £20 eto cyn y gellir talu'r ddyled sydd yn barod ar YR YMOFYNYDD. Gweler yr apel yn y rhifyn diweddaf. Cydnabyddir yn ddiolchgar symiau ychwanegol gan y Parch. Simon Jones, B.A., 57, Upper Talbot St., Nottingham, neu Olygydd YR YMOFYNYDD, Llandyssul.

ANFARWOLDEB.—"Os bydd gŵr marw, a fydd efe byw drachefn?" Dyma gwestiwn a fu yn dywyll i Job, fel i fyrddiynau o bobl o flaen ac ar ol ei amser ef. Ychydig iawn o oleuni a fedrodd neb, ond Iesu Grist, daflu ar y dirgelwch. Hyd yn oed yn llewyrch Ei ddysgeidiaeth Ef, nid oes gan bawb syniad hollol glir ar y pwnc. A yw *pob* enaid yn anfarwol? Neu ai ynte ar *amodau* y cyhoeddir anfarwoldeb? Y mae un o dduwinyddion dysgedicaf y Saeson yn dal mai peth *amodol* ydyw anfarwoldeb yr enaid. Ni ddaw fel rhôdd i neb, ond fel gwobr i'r sawl a allo ac a ddewiso ymestyn at rywbeth uwch na phethau materol. Pan ddelo angeu, ni bydd yna ddim anfarwol yn aros o'r sawl a fo o'r ddaear yn ddaearol; fe dderfydd ei yrfa yn y llwch.—C.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS. BEGONIAS, GERANIUMS, LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

Frederick Hyde **Edgar W. Woolley**

Subscribed Capital	**£38,117,103**
Paid-up Capital	**10,860,852**
Reserve Fund	**10,860,852**
Deposits *(June 30th, 1922)* ..	**368,230,831**

Local Offices:

Llandyssul: 9, Lincoln Street

PENCADER | PONTTWELLY

Manager: R. W. ROBERTS

Over 1,650 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2